# OWEN, ROBERT (1834 - 1899), Pennal, Sir Feirionnydd, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a llenor

**Enw:** Robert Owen
**Dyddiad geni:** 1834
**Dyddiad marw:** 1899
**Rhiant:** Robert Owen
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a llenor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Richard Thomas

Ganwyd yn 1834; yr oedd yn fab i Robert Owen, Neuadd Ddu, Blaenau Ffestiniog, a'i fam yn ferch Tyddyn Llwyn, Llanfrothen. Wedi iddo fod yng Ngholeg y Bala (1857-61) bu ym Mhrifysgol Glasgow ar bwys ysgoloriaeth y Dr. Williams, a derbyniodd ei radd yno ym 1865. Bu'n fugail eglwysi Pennal a Maethlon 1865-99. Yr oedd yn llenor a hanesydd da, a daeth o'i law amryw gyfrolau megis *Hanes Methodistiaeth Gorllewin Meirionnydd* (dwy gyfrol), 1888; *Ysgolfeistriaid Mr. Charles*; *Cofiant Dafydd Rolant, Pennal*; *Cofiant y Parch. Griffith Williams, Talsarnau*. Bu farw 8 Tachwedd 1899.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Thomas**, (1872 - 1950)

## Ffynonellau

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1901, 194, 195

*Y Drysorfa*, 1899, 564

*Y Goleuad*, 15 Tachwedd 1899

## Gweithiau

Robert Owen (Pennal), *Cofiant a phregethau y Parch. Griffith Williams, Talsarnau* (Bala 1886)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 86384819

Wikidata: Q20734354

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu